Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Prosiect Willow**

**Caer Las Cymru**
**Swyddfa'r Rheolwr, Aberfa House**
**740 Carmarthen Road**
**Abertawe**
**SA5 8JL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17 a 19 Awst 2021

19/08/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Prosiect Willow

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Goleudy Housing and Support Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 7 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nac ydy |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad lle rhoddwyd rhybudd, a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau wedi'u trefnu. Mae pobl a'u perthnasau yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a gânt yn yr uned byw â chymorth hon, sydd â saith fflat i saith o denantiaid eu rhentu. Maen nhw hefyd yn cynnal cydberthnasau gwaith proffesiynol da â'r staff. Mae gwybodaeth ar gael i'r staff ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cymryd rhan yn eu gofal a'u cymorth, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo y cânt eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar eu llesiant. Mae digon o staff ar gael i roi cymorth. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi datblygu systemau i'w alluogi i gofnodi safbwyntiau pobl ac i ddatblygu gwybodaeth sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Mae cyfarpar diogelwch ar waith a chaiff atgyfeiriadau iechyd eu gwneud er mwyn hybu iechyd a llesiant y bobl.

Mae angen gwneud gwelliannau o ran cydymffurfio â hyfforddiant craidd y staff a chwblhau'r adroddiadau gofynnol ar yr adolygiadau o  ansawdd y gofal. Mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw cofrestr o bobl sydd wedi dangos eu bod yn addas i weithio mewn gofal cymdeithasol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthynas dda â'r staff gan ddweud, *"the staff are really encouraging"* (*mae'r staff yn rhoi llawer o anogaeth i ni*) a *"they are understanding and always there if I need them"* (*maen nhw'n cydymdeimlo ac yno bob amser pan fydd arnaf eu hangen*). Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael cynnig dewisiadau i wneud penderfyniadau bob dydd. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym eu bod yn siarad â'r holl denantiaid a'u teuluoedd yn rheolaidd am yr hyn sy'n bwysig iddynt ac am y ffordd orau o'u cefnogi. Dywedodd y staff, ar y cyfan, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd atynt a *"they're very good"* (*maen nhw'n dda iawn*) ac "*I can't complain"* (*alla i ddim â chwyno*).

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, er enghraifft gweithwyr seiciatreg a nyrsio cymunedol. Caiff hyn ei gadarnhau gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref. Dywedodd y perthnasau wrthym y caiff yr aelod o'u teulu ei annog i gadw'n egnïol a gwneud cymaint ag y gall drosto'i hun. Adlewyrchir hyn yng nghofnodion y bobl ac mae'n un o nodweddion y gwasanaeth.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant am wneud hynny. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ystyrlon i'r bobl sy'n byw yno yn annibynnol gyda chymorth yn cael ei roi yn ôl yr angen. Gwelsom rai o'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod ein hymweliad a dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthym "*I have nothing but praise about how they support and engage with people*" (*Does gen i ddim byd ond clod am y ffordd y maen nhw'n cefnogi'r bobl ac yn ymgysylltu â nhw*).

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod ar y cyfan. Mae gan y darparwr gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau diogelu, sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth bresennol a chanllawiau cenedlaethol. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth ddigonol o'u rôl a'u cyfrifoldebau ond mae angen diweddaru'r hyfforddiant diogelu. Er gwaethaf hyn, dywedodd y bobl a oedd yn byw yn y cartref eu bod yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r llety'n diwallu anghenion y bobl. Roedd y fynedfa i'r uned byw â chymorth yn groesawgar ac yn ddiogel. Mae gan y darparwr gwasanaeth gynlluniau i ailaddurno fflatiau'r bobl a gwneud gwelliannau i'r ardd. Caiff gwybodaeth ei storio'n ddiogel yn y gwasanaeth, ar ffurf electronig a chopi caled.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol. Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith, sy'n cynnwys Diogelu oedolion agored i niwed, Cwyno a Meddyginiaeth, a oedd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gyfredol a'r canllawiau cenedlaethol. Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth am ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaeth cyn eu derbyn i fod yn denant yn un o'r fflatiau ym Mhrosiect Willow. Roedd y cynlluniau personol a welsom yn briodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac wedi'u dyddio. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dull o gynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n rhoi gwybod i'r gofalwyr sut mae'r unigolyn yn hoffi cael ei gefnogi. Mae'r wybodaeth yn dangos y caiff pobl eu grymuso i ymgymryd â gweithgareddau o'u dewis ac mae cynlluniau rheoli risg ar waith ac yn gyfredol. Dywedodd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wrthym fod y gofal a'r cymorth a ddarperir ym Mhrosiect Willow yn rhagorol.

Mae polisïau, gweithdrefnau a'r defnydd o arferion hylan sy'n atal y risg o haint ar waith. Dangosodd y staff ddealltwriaeth o reoli heintiau a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE). Fodd bynnag, ni ofynnwyd i ni gwblhau holiadur sgrinio COVID-19 yn ystod ein hymweliad cyntaf ond gofynnwyd i ni wneud hynny yn ystod ein hail ymweliad. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a dywedodd y byddai'n mynd i'r afael â'r mater ar unwaith. Mae'r staff yn gwisgo PPE priodol ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir a amlinellir yn y polisi COVID-19, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Mae'r staff yn cynnal safonau hylendid priodol ac mae amserlenni glanhau ar waith sy'n cael eu goruchwylio gan y rheolwr. Mae gwaith goruchwylio ac archwilio mesurau rheoli heintiau ar waith. Mae gan y staff stoc ddigonol o PPE.

Mae gan y gwasanaeth systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Ceir polisi a gweithdrefn meddyginiaeth priodol a chwblheir archwiliadau rheolaidd gan uwch-aelodau o'r staff. Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn cymryd cyfrifoldeb am roi unrhyw feddyginiaeth yn uniongyrchol ac mae'n gweithio tuag at gael y tenantiaid i gymryd eu meddyginiaeth eu hunain. Mae'r cofnodion rhoi meddyginiaeth yn gywir ac mae'r broses archwilio'n nodi camgymeriadau a chymerir camau priodol. Cafodd meddyginiaeth (PRN) ei rhoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau yn ôl yr angen. Darperir cymorth wedi'i deilwra i'r bobl, sy'n cynnwys cymorth gyda meddyginiaeth, gan ddibynnu ar eu gofynion. Caiff y tymheredd yn y cabinet meddyginiaeth yn y swyddfa, ei gofnodi'n ddyddiol i sicrhau y caiff y feddyginiaeth ei storio ar y tymheredd ystafell cywir.

## Arwain a Rheoli

Mae'r darparwr gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae rhai trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth ar waith, fel systemau ar gyfer asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu er mwyn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Darperir y gwasanaeth yn unol ag amcanion y Datganiad o Ddiben, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae angen gwneud gwelliannau o ran adolygu ansawdd y gofal yn rheolaidd. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod trefniadau addas ar waith i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd. Nid oedd yr adroddiadau adolygu ansawdd gofal a welwyd gennym wedi eu cwblhau'n ddigon aml ac nid oeddent o'r ansawdd gofynnol.

Mae digon o staff ar ddyletswydd i roi cymorth a gofal diogel i'r bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod cymysgedd o staff newydd a phrofiadol ar gael ac roedd hyn i'w weld yn ystod ein hymweliad. Gwelsom fod digon o staff ar gael pan fo angen. Dywedodd y bobl a oedd yn byw yn yr uned byw â chymorth wrthym "*they're always there for me when I need them*" (*maen nhw yno bob amser pan fydd arnaf eu hangen*). Dywedodd un perthynas "*I am happy with the support my relative receives*" (*Rwy'n fodlon ar y cymorth y mae fy mherthynas yn ei gael*). Mae'r cofnodion yn dangos bod y darparwr gwasanaeth yn defnyddio adnodd dibyniaeth i bennu faint o staff fydd eu hangen ar bob sifft.

Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â hyfforddiant staff. Ni chaiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu staff sydd â'r wybodaeth a'r hyfforddiant i alluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae'r cofnodion yn dangos na chafodd y staff hyfforddiant diogelu na diogelwch tân mor aml ag sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dangosodd y gweithwyr gofal fod ganddynt ddealltwriaeth o arferion a gweithdrefnau diogelu.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd i ni fod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol er mwyn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd y rheolwr wrthym am y cynlluniau i fuddsoddi yn y gwasanaeth, fel datblygu'r ardd ymhellach a'r cynlluniau i ailaddurno fflatiau'r gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Nid ydym yn archwilio thema Ansawdd yr Amgylchedd yn fanwl ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref. Fodd bynnag, gwelsom fod y swyddfa yn cynnwys offer addas er mwyn gweithredu a rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gall y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff a gyflogir fod yn hyderus bod eu gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Ni chafodd y staff yr hyfforddiant craidd sy'n briodol ar gyfer y gwaith y disgwylir iddynt ei gyflawni. | Rheoliad 36 (2) (d) |
| Ni chafodd yr Adroddiad ar yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal ei gwblhau'n ddigon aml nac i'r safon ofynnol. | |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/09/2021